Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar weithredu dull newydd o gyllido ymchwil

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Gorffennaf 2022 | |
| **Cyfeirnod:** | W22/23HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | Dim angen ymateb | |
| **Cysylltwch â:** | Enw: | Ben Raynor |
| | Ffôn: | 029 2085 9749 |
| | E-bost: | ben.raynor@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno canlyniadau ymgynghoriad ar weithredu dull newydd o ddyrannu cyllid ymchwil CCAUC sydd heb ei glustnodi. Bydd y dull newydd hwn yn disodli'r dull presennol a ddefnyddir i ddyrannu ffrydiau cyllido CCAUC sy'n cefnogi QR a PGR.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi crynodeb a dadansoddiad byr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiweddaru dull CCAUC o ddyrannu cyllid ymchwil blynyddol heb ei glustnodi i sefydliadau addysg uwch (SAUau) (gweler cylchlythyr CCAUC W21/25HE). Roedd yr ymgynghoriad hwn yn llywio'r newidiadau y mae CCAUC wedi'u gwneud i'w ddull fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid Ymchwil o Ansawdd (QR) a hyfforddiant PGR. Cyflwynir y newidiadau hyn o flwyddyn academaidd 2022/23 ac mae crynodeb ohonynt ar gael ar wahân yng nghylchlythyr W22/24HE.

## Cefndir

2. Mae CCAUC yn cyllido ymchwil mewn SAUau yng Nghymru yn bennaf drwy ei ffrwd gyllido QR. Cyllid heb ei glustnodi yw hwn, sy'n galluogi sefydliadau i benderfynu sut i'w wario er mwyn cyflawni eu nodau strategol orau. Ym mlwyddyn academaidd 2021/22 dyrannodd CCAUC £81.7m i SAUau drwy ei brif ffrwd gyllido QR (ac eithrio cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn). Dyrennir cyllid QR ar sail fformiwla.

3. Mae CCAUC hefyd yn dyrannu cyllid i gyfrannu at gostau hyfforddi myfyrwyr PGR mewn SAUau yng Nghymru. Ym mlwyddyn academaidd 2021/22 dyrannodd CCAUC £6.2m i SAUau drwy'r ffrwd hon. Dyrennir cyllid hyfforddiant PGR ar sail fformiwla.

4. Mae fformiwla QR CCAUC yn anelu i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy, drwy fesur ansawdd, maint a chynaliadwyedd. Daw'r mesurau ansawdd o ganlyniadau ymarferion asesu ymchwil cenedlaethol y DU, a gynhelir ar hyn o bryd ar ffurf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY). Ceir manylion llawn y fformiwla QR a ddefnyddiwyd rhwng 2015/16 a 2021/22 yn Atodiad A o gylchlythyr W21/25HE.

5. Mae Cyngor CCAUC yn penderfynu bob blwyddyn ar uchafswm y cyllid sydd ar gael o gyfanswm cyllideb CCAUC y gellir ei ddarparu i'r ffrwd cymorth PGR. Dyrennir hyn ar sail fformiwla drwy ddefnyddio ymrestriadau PGR cymwys a adroddir ar ffurflenni sefydliadol HESA, ynghyd ag Unedau Cyllid sy'n adlewyrchu gwahanol bwysoliadau ar gyfer gwahanol bynciau. Os yw'r dyraniadau a gyfrifir drwy'r fformiwla yn uwch nag uchafswm y cyllid sydd ar gael, caiff dyraniadau eu gostwng ar sail pro rata. Ceir manylion llawn y fformiwla cymorth PGR a ddefnyddiwyd o 2015/16 i 2021/22 yn Atodiad B o gylchlythyr W21/25HE.

6. Ar ôl adolygu ac ymgynghori, bydd CCAUC yn rhoi dull cyllido newydd ar waith, gan ddefnyddio canlyniadau ymarfer FfRhY 2021, i ddod i rym ar gyfer dyraniadau cyllid blwyddyn academaidd 2022/23. Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod dyraniadau sefydliadau'n seiliedig ar ganlyniadau FfRhY 2021 cyn gynted ag sy'n bosibl, fel bod dyraniadau CCAUC wedi'u tanategu gan y data diweddaraf sydd ar gael, ac yn sicrhau enillion mor gynnar ag sy'n bosibl ar yr adnoddau a neilltuodd sefydliadau i ymchwil ragorol yn eu cyflwyniadau ar gyfer FfRhY 2021. Ceir manylion llawn y dull newydd yng nghylchlythyr W22/24HE.

## Sail resymegol yr adolygiad

7. Yn 2015, argymhellodd un o grwpiau gorchwyl a gorffen Cyngor CCAUC y dylid adolygu dull cyllido ymchwil CCAUC ar gyfer y tymor hir, er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n fwy strategol ar ragoriaeth a chapasiti. Ar yr un pryd, penderfynwyd gohirio unrhyw adolygiad o'r dull cyllido gan fod y tirlun cyllido yn newid. Ers hynny, mae'r holl ffactorau canlynol wedi effeithio ar y tirlun cyllido ymchwil yng Nghymru:

   - Adolygiad Diamond (2016)[1]
   - Adolygiad Reid (2018)[2]
   - Cyflwyno cyllid arloesi ac ymgysylltu drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru
   - Hyrwyddo cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
   - Sefydlu Ymchwil ac Arloesi yn y DU
   - Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyrraedd targed o 2.4% ar gyfer buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu.
   - Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

   Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn a'u heffeithiau ar y tirlun cyllido ymchwil, cytunodd Cyngor CCAUC fod angen cynnal adolygiad o fethodoleg cyllido ymchwil CCAUC er mwyn sicrhau y byddai'n parhau i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy yn y tirlun cyllido presennol.

8. Mae dulliau CCAUC ar gyfer cyllid fformiwla QR a PGR a ddefnyddiwyd rhwng 2015/16 a 2021/22 yn defnyddio canlyniadau FfRhY 2014, canlyniadau'r ymarfer asesu ymchwil cenedlaethol a gwblhawyd yn fwyaf diweddaraf yn y DU ar y pryd. Mae'r dull wedi'i ddylunio i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy drwy ddefnyddio diffiniadau a chategorïau sy'n deillio o broses a chanlyniadau FfRhY 2014. Yn dilyn adolygiad Stern (2016),[3] gwnaed newidiadau sylweddol i gyflwyniadau sefydliadau ar gyfer yr ymarfer asesu ymchwil genedlaethol nesaf, FfRhY 2021. Mae'r newidiadau hyn, a newidiadau eraill sy'n tanategu data FfRhY 2021 yn rhoi ystyriaeth i adolygiad o ddulliau cyllido CCAUC a fydd yn defnyddio canlyniadau FfRhY 2021.

9. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd CCAUC ei Weledigaeth ar gyfer Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru. Cafodd y ddogfen hon ei hailwampio ym mis Chwefror 2022. Mae'r Weledigaeth wedi'i seilio ar bedair colofn thematig, sef Rhagoriaeth, Lle, Arloesi, a Chydweithio, ac yn esbonio sut mae CCAUC yn ceisio gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i greu cymuned ffyniannus yn llawn her, newid a chyflawniad, a fydd yn gwireddu uchelgeisiau economaidd, cymdeithasol a dinesig ledled Cymru, y DU a'r byd. Bydd yr adolygiad o ddull CCAUC o gyllido ymchwil hefyd yn sicrhau ei fod yn cefnogi cyflawni Gweledigaeth CCAUC.

[1] Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru
[2] Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru
[3] Adeiladu ar Lwyddiant a Dysgu o Brofiad: Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

10. Ceir crynodeb byr isod o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi'u trefnu fesul cwestiwn/cynnig:

    - **Nod CCAUC yw parhau i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy drwy ddefnyddio model symlach a mwy tryloyw**: Roedd yr holl ymatebion yn cefnogi'r nodau arfaethedig. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y ffordd orau o ddiffinio a chefnogi rhagoriaeth, a sut i symleiddio'r model heb amharu ar y gefnogaeth i ragoriaeth.
    - **Peidio â chyflwyno elfen sy'n cymell cipio grantiau i'r fformiwla QR ar hyn o bryd**: Roedd bron bob un o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig, gan gyfeirio at weithgareddau fel Rhwydwaith Arloeswyr Cymru neu'r Gronfa Dyfodol Cymru ddisgwyliedig, a ddylai fodloni'r angen hwn. Nid oedd un ymateb ond yn cefnogi hyn yng nghyd-destun sefydlu Cronfa Dyfodol Cymru.
    - **Cael gwared â'r ffrwd rhagoriaeth ymchwil sy'n dyrannu cyllid yn erbyn ymchwil 4* yn unig**: roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn gan y byddai'n symleiddio'r fformiwla. Mynegwyd pryder mewn dau ymateb, gan ddweud y dylid cynyddu'r pwysoliad 4* pe bai'r ffrwd hon yn cael ei dileu.
    - **Cael gwared â mân fesurau maint**: roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gan groesawu'r ffaith y byddai hyn yn gwneud y fformiwla'n symlach ac yn fwy tryloyw. Mynegodd lleiafrif bryder y byddai hyn yn golygu na fyddai elfen bwysig yn y sylfaen ymchwil yn denu cyllid yn y fformiwla newydd.
    - **Defnyddio data maint ac ansawdd FfRhY i weithredu'r fformiwla newydd**: roedd yr holl ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gan nodi bod y FfRhY yn ffynhonnell addas a thrylwyr. Mewn rhai ymatebion, nodwyd pryderon ynghylch pa weithgarwch ymchwil mewn prifysgolion a gaiff/na chaiff ei ystyried yn FfRhY, neu ei bwysoli'n ddigonol.
    - **Addasu'r pwysoliadau ansawdd a gymhwysir i ganlyniadau'r FfRhY (4*, 3*, 2*, 1*, diddosbarth)**: roedd yr ymatebion yn amrywio, gyda rhai o blaid cynnal neu gynyddu'r pwysoliad trymach a geir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch ymchwil a asesir yn 4*. Mewn ymatebion eraill cefnogwyd cyflwyno pwysoliad dros 0 ar gyfer gweithgarwch ymchwil 2*.
    - **Adolygu pwysiadau pwnc**: roedd yr holl ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gyda rhai'n benodol yn cefnogi cadw cydnabyddiaeth o'r costau uwch yn gysylltiedig ag ymchwil mewn rhai pynciau.
    - **Cadw trothwyon maint a chynaliadwyedd yn y fformiwla newydd**: roedd mwyafrif bach o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig, gan ddadlau bod canlyniadau'r FfRhY eisoes wedi rhoi cyfrif am gynaliadwyedd gweithgarwch ymchwil, a bod y trothwyon yn gwyro buddsoddiad oddi wrth feysydd twf. Roedd lleiafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gan nodi nad bod y trothwyon yn sicrhau mai ond capasiti cynaliadwy sy'n denu cyllid, a bod modd i brifysgolion barhau i fuddsoddi er mwyn tyfu meysydd llai os ydynt yn dewis gwneud hynny.

- **Pennu ffrwd incwm elusennol a ddyrennir ar sail pro rata yn unol ag incwm ymchwil sefydliadau gan elusennau, ar gyfradd o 15% o gyllid ymchwil nad yw'n gyllid PGR**: roedd yr ymatebion i'r cynnig hwn yn amrywio'n sylweddol. Roedd tri yn cefnogi cadw'r lefel hon o gymorth gyda mwy o dryloywder. Roedd dau am gynyddu'r lefel hon o gymorth. Roedd dau'n argymell y dylid cael gwared â'r ffrwd yn llwyr. Argymhellodd un y dylai'r ffrwd ehangu ei chwmpas, gan ddyrannu'n unol ag incwm ymchwil cystadleuol sefydliadau, waeth beth fo ffynhonnell yr incwm hwnnw.
- **Defnyddio'r un diffiniad o incwm elusennol ag Ymchwil Lloegr a Chyngor Cyllido'r Alban**: roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gydag un heb allu penderfynu nes cael gwybodaeth bellach.
- **Dileu terfynau amser ar gyfer ymrestriadau PGR**: roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gan nodi'r effeithiau cadarnhaol o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mewn un ymateb, mynegwyd pryder y gallai hyn wanio'r gefnogaeth ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-radd ar lwybrau astudio sy'n peri iddynt gyfrannu mwy i'r sylfaen ymchwil.
- **Defnyddio'r un pwysoliadau pwnc ar gyfer PGR â QR**: roedd yr holl ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gan groesawu symleiddio'r fformiwla. Mynegodd rhai bryderon ynghylch yr effeithiau posibl o ran recriwtio Ymchwilwyr Ôl-radd i bynciau cost uchel.
- **Pennu cyfran o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer PGR**: roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gan ddweud y byddai'n gwneud y cymorth yn fwy cyson a thryloyw. Mewn ymatebion eraill mynegwyd pryder y gallai natur amrywiol y cyllid amharu ar y gallu i gynllunio, ac y byddai'n golygu na fyddai modd i gyllid sefydlog gynyddu'n unol â niferoedd yr Ymchwilwyr Ôl-radd.

11. Ceir crynodeb manylach o'r ymatebion yn **Atodiad A.**

**Canlyniadau**

12. Rhoddodd CCAUC ystyriaeth i'r holl ymatebion ymgynghori wrth lunio ei gynlluniau terfynol ar gyfer y fethodoleg cyllido ymchwil newydd. Ceir ymateb manwl gan CCAUC i bryderon a fynegwyd yn yr ymatebion ymgynghori yn **Atodiad A**.

13. Ceir manylion llawn methodoleg cyllido ymchwil derfynol CCAUC yng nghylchlythyr W22/24HE.

**Y camau nesaf a'r amserlen**

14. Defnyddir y fethodoleg cyllido ymchwil newydd i gyfrifo dyraniadau cyllid QR a PGR o flwyddyn academaidd 2022/23

**Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:**

15. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ben Raynor (ben.raynor@hefcw.ac.uk).

**Asesu effaith ein polisïau**

16. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

17. Ceir manylion llawn yr ystyriaethau a oedd yn deillio o'r asesiadau effaith ar gyfer y fethodoleg cyllido ymchwil newydd yng nghylchlythyr W22/24HE. Sylwch hefyd ar yr ymatebion i'r cwestiynau ynghylch ystyriaethau'r Gymraeg, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn **Atodiad A** y cylchlythyr hwn.

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar weithredu dull newydd o gyllido ymchwil

## 1. Cyflwyniad

Rhoddir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn isod ynghyd â sylwadau ac ymateb CCAUC. Er ein bod wedi ymdrechu i gasglu cynifer o faterion a phryderon a godwyd ym mhob ymateb ag sy'n bosibl, sylwch fod rhai wedi'u symleiddio a'u crynhoi gan fod amrywiaeth mor fawr o faterion wedi'u codi.

---

## 2. Y newidiadau a gynigir: nodau

Mae CCAUC yn cynnig y dylid disodli ei drefniadau cyfredol ar gyfer cyllido ymchwil yn SAUau Cymru gan gyflwyno tair ffrwd yn lle hynny, a elwir gyda'i gilydd yn 'Gyllid Ymchwil'.

a. Canlyniadau’r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil: hon fydd y ffrwd fwyaf a byddai'n cael ei chyfrifo ar sail proffil ansawdd a nifer y staff categori A a gyflwynir ym mhob cyflwyniad FfRhY.
b. Incwm ymchwil elusennol: byddai'r ffrwd hon yn cael ei dyrannu ar sail pro rata i gyd-fynd â'r incwm ymchwil a gaiff sefydliadau gan elusennau, a byddai'n helpu i dalu Costau Economaidd Llawn yr ymchwil a gefnogir drwy hyn gan nad yw elusennau'n talu gorbenion ar eu grantiau ymchwil.
c. PGR: Byddai CCAUC yn parhau i gyfrannu at gostau hyfforddi ar gyfer ymrestriadau PGR cymwys.

Mae CCAUC yn croesawu safbwyntiau ar yr hyn y dylai ei Gyllid Ymchwil anelu i'w gyflawni, a'r newidiadau lefel uwch i'r ffrwd Cyllido Ymchwil gyffredinol.

| |
|---|
| **Mae CCAUC yn cynnig y dylai’r dull Cyllido Ymchwil newydd anelu i:**<br>**a) Barhau i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy**<br>**b) Cynnwys model symlach a mwy tryloyw**<br>**c) Defnyddio data a gesglir yn y FfRhY neu o ddata HESA yn unig**<br>**d) Helpu i wireddu Ymchwil ac Arloesi: Gweledigaeth i Gymru gan CCAUC**<br>**A yw'r nodau hyn yn addas ar gyfer dull Cyllido Ymchwil CCAUC? A ddylid cynnwys unrhyw nodau eraill yn eich barn chi?** |
| *Cafwyd cefnogaeth eang o blaid nodau CCAUC i barhau i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy gan ddefnyddio model symlach.*<br><br>*Cafwyd rhai pryderon ynghylch y nod i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy, a ganolbwyntiai ar y dull o ddiffinio rhagoriaeth. Cafwyd awgrym nad yw'r FfRhY yn defnyddio'r holl fetrigau sy'n berthnasol i ragoriaeth ymchwil, yn enwedig o safbwynt lle, arloesi a chydweithio. Roedd pryder hefyd nad oedd y trothwyon maint a chynaliadwyedd yn y fformiwla gyfredol yn cefnogi rhagoriaeth ymchwil sy’n egino neu a weithredir ar raddfa fach, ac y byddai’r sefyllfa hon yn parhau o gadw'r trothwyon hynny.* |

*Er bod cefnogaeth o blaid y tryloywder y byddai model symlach yn ei greu, roedd pryderon na ddylai'r nod o greu model symlach leihau'r cymhlethdod i'r graddau bod hynny'n amharu ar y nod o gefnogi rhagoriaeth.*

Ymateb CCAUC:

Nodwn y gefnogaeth o blaid y nodau ar gyfer y fethodoleg cyllido ymchwil newydd.

Er ein bod yn cydnabod pryderon ynghylch yr elfennau rhagoriaeth ymchwil a fesurir yn y FfRhY, mae canlyniadau'r FfRhY yn cynrychioli asesiad cadarn sy'n ennyn parch yn rhyngwladol o faint ac ansawdd gweithgarwch ymchwil ym mhrifysgolion y DU. Mae canlyniadau'r FfRhY felly'n gwbl addas inni eu defnyddio'n sail ar gyfer dyraniadau QR. Mae cyllid arall CCAUC, fel Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a'n cefnogaeth tuag at Rwydwaith Arloeswyr Cymru, yn cynorthwyo sefydliadau i gydweithio, arloesi a chanlyn nodau eu cenhadaeth ddinesig.

Darperir QR ar ffurf grant heb ei glustnodi i brifysgolion. Mae hyn yn caniatáu iddynt ei wario i ganlyn eu strategaethau ymchwil tymor hwy, a gall hyn gynnwys meysydd gweithgarwch ymchwil sy'n egino neu'n gweithredu ar raddfa fach, gan nad yw methodoleg dyrannu CCAUC yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar y modd y gall prifysgolion wario'u dyraniadau.

Drwy'r holl broses o lunio'r polisi, mae CCAUC wedi taro cydbwysedd rhwng y dyhead am fformiwla symlach a'r angen i barhau i gefnogi rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy.

**Mae CCAUC yn cynnig na ddylai'r dull Cyllido Ymchwil newydd gynnwys ffrwd i gymell a gwobrwyo sefydliadau am ennill grantiau ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno?**

**Rhowch hefyd unrhyw sylwadau am ddulliau o gymell sector AU Cymru i ennill grantiau.**

*Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r ymagwedd hon, gan fod ennill grantiau eisoes wedi'i gefnogi drwy rôl QR yn tanategu pob gweithgarwch ymchwil, ac eisoes wedi'i gydnabod yn y FfRhY, ac felly wedi'i wobrwyo yn y fformiwla gyllido. Cydnabuwyd hefyd y byddai Rhwydwaith Arloeswyr Cymru a'r Gronfa Dyfodol Cymru arfaethedig hefyd yn cyflawni'r hynny.*

*Pe na fyddai Cronfa Dyfodol Cymru yn dod i fodolaeth, dywedodd un sefydliad y dylid cyflawni'r nod hwn drwy neilltuo swm oddi mewn i gyllid QR i'w ddyrannu ar sail holl incwm ymchwil y sefydliad.*

Ymateb CCAUC:

Nodwn fod mwyafrif cryf o blaid peidio cyflwyno ffrwd at gyllid QR i gymell sefydliadau i ennill grantiau ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gall prifysgolion ddatblygu i fod yn fwy cystadleuol mewn cystadlaethau i sicrhau cyllid ymchwil allanol. Mae hyn yn cynnwys canlyn argymhellion Adolygiad yr Athro Graeme Reid, fel y cawsant eu hategu gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cyflwyno Cronfa Dyfodol Cymru ar ôl cynnal QR o leiaf mewn termau real. Dylai Rhwydwaith Arloeswyr Cymru, a gyllidir gan CCAUC, hefyd ddwysau gweithgarwch ceisiadau cydweithredol rhwng prifysgolion, fel llwybr tuag at fwy o lwyddiant wrth ennill grantiau allanol.

**Mae CCAUC yn cynnig na ddylai'r dull newydd o gyllido ymchwil ddyblygu'r ffrwd 'Rhagoriaeth Ymchwil' gyfredol sy'n dyrannu £6.5m yn erbyn ymchwil 4* yn unig. Ydych chi'n cytuno?**

*Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno, gan y byddai'n symleiddio'r fformiwla, ac mae'r pwysoliad 4* eisoes yn cefnogi'r ymchwil orau yng ngweddill y fformiwla.*

*Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o symud oddi wrth ganolbwyntio ar ragoriaeth ymchwil, ac o blaid cynyddu'r pwysoliad ansawdd 4* pe bai'r swm wedi'i glustnodi'n cael ei ddileu.*

Ymateb CCAUC:

Nodwn fod mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y weithred hon i symleiddio'r fformiwla. Yn y fethodoleg newydd, er mwyn parhau i gefnogi rhagoriaeth ymchwil, mae CCAUC wedi cynyddu pwysoliad gweithgarwch ymchwil 4* yn y fformiwla ddyrannu.

**Mae CCAUC yn cynnig na ddylai'r dull newydd o gyllido ymchwil gynnwys mân fesuriadau maint ar gyfer myfyrwyr ymchwil, cynorthwywyr ymchwil, cymrodyr ymchwil, ac incwm elusennol a ddyfernir drwy gystadleuaeth agored. Ydych chi'n cytuno?**

*Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Teimlai'r ymatebwyr hyn y byddai hyn yn symleiddio'r fformiwla, nad oedd staff dros dro yn cynrychioli'r capasiti ymchwil craidd y mae QR yn anelu i'w gefnogi, a bod cyfrif eisoes wedi'i roi am yr aelodau hyn o staff ym mhroffiliau ansawdd y FfRhY, yn rhan o'r sgôr amgylchedd ar gyfer unedau asesu unigol.*

*Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno neu'n mynegi amheuon, gan ddadlau bod mân fesuriadau maint yn cefnogi staff nad oeddent yn gymwys i'w cynnwys wrth gyflwyno gwybodaeth i FfRhY 2021, ond eu bod yn dal yn hanfodol ar gyfer ymchwil, ac i sicrhau cynaliadwyedd y sylfaen ymchwil.*

| |
|---|
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae FfRhY 2021 yn ymarfer llawer mwy cynhwysol na FfRhY 2014, yn nhermau nifer y staff ymchwil a gyflwynwyd. Cafodd yr holl staff â chyfrifoldeb sylweddol dros ymchwil eu nodi gan brifysgolion ar y ffurflenni a gyflwynwyd ganddynt i FfRhY 2021. Mae'r staff hyn yn cynrychioli'r buddsoddiad mwyaf cynaliadwy a wneir gan sefydliadau yn y sylfaen ymchwil, felly dylai hynny fod yn ffocws ym muddsoddiad CCAUC mewn rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy. Gan hynny, dyma'r unig ffynhonnell a ddefnyddir i fesur maint yn y fformiwla ddyrannu newydd. Mae CCAUC yn cydnabod y cyfraniadau pwysig iawn a wneir gan gategorïau eraill o staff prifysgol i weithgarwch ymchwil, ond dylid recriwtio’r rhain yn gymesur â buddsoddiad mewn gallu ymchwil hirdymor.<br><br>Ceir ffrydiau cyllido pwrpasol er mwyn cefnogi incwm elusennol a hefyd ar gyfer myfyrwyr PGR, a bydd hynny'n sicrhau bod y gefnogaeth ar gyfer y meysydd hyn yn parhau ar ôl cael gwared a'r mân fesurau maint sy'n gysylltiedig â hwy. |

## 3. Y newidiadau a gynigir: Canlyniadau'r FfRhY / QR (paragraffau 19-24)

Mae CCAUC yn cynnig parhau i ddyrannu mwyafrif ei gyllid ymchwil craidd i sefydliadau drwy fformiwla ar ffurf ffrwd o gyllid heb ei glustnodi. Drwy ddefnyddio canlyniadau FfRhY 2021, byddai'n parhau i gyllido rhagoriaeth ymchwil yn SAUau Cymru mewn modd cynaliadwy.

| **A ddylai CCAUC ddefnyddio canlyniadau FfRhY 2021 yn sail ar gyfer ei fesurau ansawdd a maint ar gyfer y dull newydd o gyllido ymchwil?** |
|---|
| *Cytunai'r holl ymatebwyr y dylai CCAUC ddefnyddio canlyniadau FfRhY 2021 ar gyfer mesurau ansawdd a maint yn y fformiwla newydd. Cyfeiriodd ymatebwyr at y ffaith bod canlyniadau FfRhY 2021 yn drwyadl ac addas, ac nad oedd unrhyw fetrigau eraill ar gael i'w defnyddio.*<br><br>*Mynegwyd pryder na fyddai'r holl staff yn cael eu cydnabod ym mesurau maint FfRhY, ac nad oedd effaith wedi'i phwysoli'n briodol yng nghanlyniadau'r FfRhY, ac y dylai Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ystyried sgoriau effaith FfRhY i wneud iawn am hynny. Awgrymodd dau ymatebwr hefyd, gan fod canlyniadau’r FfRhY eisoes yn ystyried cynaliadwyedd gweithgareddau ymchwil, y dylid hepgor y trothwyon maint a chynaliadwyedd o’r fformiwla QR newydd.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Hyderwn fod FfRhY 2021 yn asesiad cadarn a thrwyadl o faint ac ansawdd ymchwil ym mhrifysgolion y DU, ac y bydd yn sail gadarn er mwyn dyrannu cyllid ymchwil.<br><br>O ran aelodau eraill o staff nad ydynt wedi'u cydnabod yn mesurau maint FfRhY, gweler ymateb CCAUC i'r cwestiwn am fesurau maint llai.<br><br>O ran y trothwyon maint a chynaliadwyedd, gweler ymateb CCAUC i'r cwestiwn ar y trothwyon. |

Roedd effaith i gyfrif am 25% o broffil ansawdd cyffredinol uned asesu yn FfRhY 2021. Cynyddwyd hyn o 20% yn FfRhY 2014. Yn y modd hwn rhoddir ystyriaeth lawn i effaith yng nghanlyniadau FfRhY 2021. Bydd y cyrff cyllido yn ystyried a ddylai pwysoliadau cymharol gwahanol elfennau o asesiad y FfRhY barhau i fod yr un peth os cânt eu defnyddio eto yn y dyfodol, wrth ddylunio'r ymarfer asesu ymchwil nesaf ar raddfa'r DU. Mae ffrydiau cyllido eraill CCAUC, fel Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn defnyddio setiau data gwahanol i gydnabod gweithgarwch arloesi a chenhadaeth ddinesig prifysgolion sy'n creu effeithiau yn y gymdeithas ehangach.

**A ddylai CCAUC gadw'r pwysoliadau ansawdd canlynol o'r fformiwla QR bresennol?**

**4* - 3**
**3* - 1**
**2* - 0**
**1* - 0**

**Gofynnir ichi ystyried eich ateb yng nghyd-destun y cynnig i ddileu'r ffrwd sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Rhagoriaeth Ymchwil o fewn QR, sy'n dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer ymchwil 4* yn unig.**

*Cafwyd safbwyntiau amrywiol gan yr ymatebwyr. Roedd rhai o'r farn y dylid cynyddu'r pwysoliad 4* ymhellach i roi pwyslais ar gefnogaeth i ragoriaeth ymchwil. Roedd eraill o'r farn y dylid cadw'r pwysoliadau cyfredol am eu bod yn taro cydbwysedd rhwng cefnogi rhagoriaeth a chefnogi amrywiaeth. Teimlai eraill y dylid cynyddu'r pwysoliad 2* o 0, gan ddweud bod hyn yn briodol gan fod FfRhY 2021 yn ymarfer asesu llai detholus, a byddai'n helpu i gefnogi ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfa a chynaliadwyedd yn y sylfaen ymchwil.*

Ymateb CCAUC:

Un o nodau cyffredinol cyllid QR CCAUC yw parhau i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy. Wrth ganlyn y nod hwn drwy'r fformiwla gyllido, mae'n bwysig sicrhau bod yr ymchwil orau'n denu lefel uwch o gyllid o fewn y fformiwla gyllido. Yng nghyd-destun dileu'r cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Rhagoriaeth Ymchwil, mae CCAUC wedi penderfynu cynyddu'r pwysoliad 4* i 4 er mwyn sicrhau bod y fformiwla newydd yn parhau i gyllido rhagoriaeth mewn ymchwil. Mae hyn yn gwneud pwysoliadau pwnc CCAUC yn gyson â phwysoliadau pwnc QR Ymchwil Lloegr o 2021/22 ymlaen.

**Pwysoliadau pwnc cyfredol CCAUC yw:**

- **Meddygaeth glinigol/pynciau labordy: 1.6**
- **Pynciau â phremiwm technegol/arbrofol: 1.3**
- **Pynciau eraill: 1.0**

| |
|---|
| **Mae CCAUC yn cynnig diweddaru'r pwysoliadau hyn drwy ddefnyddio ymchwil newydd. A oes angen diweddaru'r pwysoliadau hyn i adlewyrchu costau ymchwil cymharol a geir yn gyfredol ar draws disgyblaethau?** |
| *Argymhellodd ymatebwyr y dylid cynnal ymgynghoriad pellach ar ôl derbyn canfyddiadau gwaith ymchwil a oedd ar y gweill ar y pryd Roedd cefnogaeth eang i barhau i gydnabod cost uwch ymchwil mewn rhai pynciau.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Gan na cheir achos cryf dros newid mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Ymchwil Lloegr ar ran cyrff cyllido ymchwil y DU, mae CCAUC wedi penderfynu cadw'r pwysoliadau cost pwnc cyfredol, er mwyn parhau i gydnabod costau amrywiol ymchwil ar draws pynciau. Hysbyswyd sefydliadau ynghylch canfyddiadau'r ymchwil a gofyn iddynt gynnig sylwadau, ac ni oedd unrhyw awydd i newid y pwysoliadau cost pwnc. |

| |
|---|
| **Mae fformiwla QR gyfredol CCAUC yn cynnwys trothwyon maint a chynaliadwyedd. Nod y rhain yw sicrhau cyllid QR CCAUC yn cefnogi gweithgarwch ymchwil cynaliadwy mewn SAUau. A ddylai CCAUC gadw trothwyon maint a/neu gynaliadwyedd ar gyfer y fformiwla newydd?** |
| *Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr yn amrywio. Roedd rhai o blaid cadw neu godi'r trothwyon hyn, gan ddadlau eu bod yn sicrhau nad yw CCAUC ond yn cyllido capasiti ymchwil cynaliadwy, ac y gall prifysgolion barhau i fuddsoddi arian i dyfu meysydd ymchwil llai os dymunant. Roedd eraill o blaid cael gwared arnynt, gan ddadlau eu bod yn gwyro buddsoddiad oddi wrth feysydd sy'n tyfu o ran gweithgarwch ymchwil, y rhoddir cyfrif eisoes am gynaliadwyedd yn sgoriau'r FfRhY, a bod y trothwyon yn cosbi sefydliadau llai â phocedi o ragoriaeth. Nododd un ymatebwr nad yw Ymchwil Lloegr yn defnyddio trothwyon yn ei fformiwla QR.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae CCAUC wedi penderfynu cadw'r egwyddor polisi a gynrychiolir gan y trothwyon maint a chynaliadwyedd, sef y dylai'r fformiwla gyllido sicrhau na fydd Unedau Asesu yn denu cyllid os nad ydynt wedi cyrraedd maint neu ansawdd penodol o ran eu gweithgarwch ymchwil. Drwy hyn, sicrheir na chaiff cyllid cyhoeddus ei ddyrannu i weithgarwch ymchwil nad yw hyd yma wedi dangos ei fod yn gynaliadwy am y tymor hwy, ac mae'n elfen bwysig er mwyn sicrhau bod cyllid QR CCAUC yn cyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy. Gan mai grant heb ei glustnodi yw QR, mae rhyddid i brifysgolion fuddsoddi mewn meysydd gweithgarwch ymchwil nad ydynt yn denu cyllid yn y fformiwla newydd, os ydynt o'r farn mai dyna'r ffordd orau o ganlyn eu strategaeth ymchwil ar gyfer y tymor hwy.<br><br>Gosodwyd y trothwyon a ddewiswyd ar gyfer y fethodoleg gyllido newydd i sicrhau bod yr holl Unedau Asesu yr aseswyd bod ganddynt rywfaint o |

weithgarwch ymchwil sy'n flaenllaw yn y byd drwy FfRhY 2021 yn denu cyllid drwy'r fformiwla gyllido newydd.

## 4. Y newidiadau a gynigir: incwm ymchwil elusennol (paragraffau 25-30)

Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn cyfrannu i dalu Costau Economaidd Llawn yr ymchwil a gyllidir gan elusennau drwy elfen wedi'i neilltuo (£3.3m) o fewn y ffrwd gyllido QR, a thrwy effeithiau ei fân fesuriadau maint ar gyfer incwm elusennol. Mae CCAUC yn cynnig cyflwyno ffrwd Incwm Ymchwil Elusennol bwrpasol i ddisodli'r rhain yn y dull cyllido newydd, er mwyn parhau i gyfrannu at dalu Costau Economaidd Llawn yr ymchwil a gyllidir gan elusennau.

**Mae CCAUC yn cynnig y dylai'r dull newydd o Gyllido Ymchwil gynnwys ffrwd gyllido a ddyrennir ar sail yr incwm ymchwil a gaiff sefydliadau gan elusennau, wedi'i gosod ar 15% o Gyllid nad yw'n PGR, gan ddileu'r mân fesuriadau maint ar gyfer incwm elusennol. Drwy hyn, bydd y gefnogaeth a neilltuwyd i dalu Costau Economaidd Llawn incwm ymchwil elusennol yn cael ei chadw ar y lefelau cyfredol Rhowch sylwadau ar y dull cyllido arfaethedig, a lefel y cyllid ar gyfer y Ffrwd Incwm Elusennol.**

*Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr yn amrywio. Roedd rhai'n croesawu'r cynnig, gan ddweud y byddai'n ffordd o gynnal cefnogaeth bwysig, gyda mwy o dryloywder. Awgrymodd rhai y dylid cynyddu lefel y cefnogaeth i fwy na 15% o gyllid sydd ar gael.*

*Roedd rhai o'r safbwyntiau eraill yn llai cefnogol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:*

- *cael gwared â'r swm wedi'i neilltuo'n llwyr, gan nad incwm ymchwil elusennol yw'r unig incwm ymchwil a gyllidir ar lai na'r gost economaidd lawn.*
- *cael gwared â'r swm wedi'i neilltuo'n llwyr, gan ei fod yn cynrychioli defnydd amhriodol o arian cyhoeddus.*
- *ehangu'r swm neilltuedig i gefnogi'r holl incwm ymchwil.*

Ymateb CCAUC:

Sylwn fod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio, a bod diffyg consensws o fewn y sector ynghylch gwerth cynnal y ffrwd gyllido hon ar ei lefel gyfredol. Gwnaethom hefyd ystyried rhan y allweddol y mae gweddill y cyllid QR yn ei chwarae fel grant heb ei glustnodi, er mwyn tanategu *holl* weithgarwch ymchwil prifysgolion, gan gynnwys canlyn strategaethau ymchwil hirdymor, recriwtio a hyfforddi'r staff gorau, cynnal seilwaith, a chefnogi cynaliadwyedd a chystadleurwydd wrth geisio ennill grantiau allanol.

Ac ystyried hyn i gyd, mae CCAUC wedi penderfynu cadw ffrwd gyllido bwrpasol a ddyrennir ar sail incwm ymchwil elusennol prifysgolion, ond gosod hynny ar **10%** o'r holl gyllid sydd ar gael.

| |
|---|
| **Mae CCAUC yn cynnig cynnal y Ffrwd Incwm Elusennol ar ei chyfran bresennol o gyllid ymchwil nad yw'n PGR er mwyn helpu i lenwi'r bwlch rhwng y lefel isel o enillion o ymchwil a gyllidir gan elusennau a'r Costau Economaidd Llawn. A allai CCAUC wneud mwy i ddatrys yr anhawster wrth adennill y Costau Economaidd Llawn o'r ffynhonnell hon o gyllid?** |
| *Roedd cefnogaeth eang ar gyfer unrhyw ddulliau a allai weithio i adennill costau economaidd llawn, ond cydnabyddiaeth o'r ffaith y byddai datrys hynny'n anodd heb fwy o gyllid. Roedd parhau â'r ffocws ar ymchwil a gyllidir gan elusennau, a cheisio ffynonellau eraill o gyllid, fel Banc Datblygu Cymru, ymhlith yr awgrymiadau.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae CCAUC yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r rhain wrth barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall y sector fod yn gystadleuol wrth geisio sicrhau cyllid grant cynaliadwy ar gyfer ymchwil. |

| |
|---|
| **Mae CCAUC yn cynnig defnyddio'r un diffiniad o incwm elusennol cymwys yn y dull cyllido newydd â'r diffiniad cyfredol a ddefnyddir gan Ymchwil Lloegr a Chyngor Cyllido'r Alban: incwm gan elusennau yn y DU, elusennau'r UE ac elusennau y tu hwnt i'r UE (ffynonellau cystadleuol yn unig). A yw'r diffiniad hwn yn addas?** |
| *Roedd cefnogaeth eang o blaid y cynnig hwn. Os nad oedd ymatebwyr wedi penderfynu, roeddent yn dweud na allent ymateb heb wybod beth fyddai effeithiau hyn ar gyllid.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae CCAUC yn nodi'r gefnogaeth eang o blaid y cynnig hwn, a bydd yn defnyddio'r diffiniad hwn yn ei fethodoleg newydd. |

## 5. Y newidiadau a gynigir: Cyllid cymorth PGR (paragraffau 31-33)

Ar hyn o bryd mae CCAUC yn cyfrannu at gostau hyfforddi myfyrwyr PGR yn sefydliadau Cymru drwy gyllid fformiwla. Dyrennir hyn yn ôl nifer yr ymrestriadau PGR cymwys yn Unedau Asesu cymwys FfRhY 2014, yn ogystal ag Unedau Cyllid arwahanol ar gyfer gwahanol ddisgyblaethau ymchwil. Ar gyfer y dull newydd o gyllido ymchwil, bydd CCAUC yn parhau i gefnogi hyfforddiant PGR drwy ddefnyddio fformiwla ddyrannu wedi'i diweddaru a data FfRhY 2021.

| |
|---|
| **A ddylai CCAUC gael gwared â'r terfynau amser ar gyfer ymrestriadau PGR sy'n gymwys i dderbyn cyllid cymorth PGR?** |

| |
|---|
| *Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, a'r rheswm a nodwyd amlaf oedd bod hyn yn gyfle i fynd i'r afael â phryderon cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn sgil diffyg cefnogaeth ar gyfer patrymau astudio annhraddodiadol. Mynegwyd rhywfaint o bryder y gallai hyn olygu bod cyllid ymchwil yn cael ei gyfeirio at PGRs annhraddodiadol, ac ystyried mai prin yw eu cyfraniad at y sylfaen ymchwil o fewn sefydliadau.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae CCAUC yn croesawu'r gefnogaeth eang ar gyfer y cynnig hwn, a bydd yn ei weithredu yn y fethodoleg newydd ar gyfer PGR. Dylai hyn greu effeithiau cadarnhaol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan alluogi prifysgolion i gefnogi dulliau astudio annhraddodiadol ymhlith PGRs. |

| **Mae CCAUC yn cynnig defnyddio'r un pwysoliadau pwnc ar gyfer y fformiwla newydd i gyllido cymorth PGR ag ar gyfer elfennau eraill o Gyllid Ymchwil. Byddai'r rhain yn disodli'r Unedau Cyllido PGR cyfredol. Ydych chi'n cytuno?** |
|---|
| *Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno, gan groesawu symleiddio'r fformiwla. Mynegwyd amheuon oherwydd y potensial i leihau cyfraddau recriwtio PGR i bynciau cost uchel.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae CCAUC yn nodi'r gefnogaeth o blaid y cynnig hwn, a bydd yn ei weithredu yn y fethodoleg gyllido newydd ar gyfer PGR. Ac ystyried mai ond cyfraniad yw cyllid hyfforddiant PGR at gost hyfforddi PGRs mewn prifysgolion, a'r galw uchel parhaus a'r niferoedd uchel sy'n ymgeisio am PGRs mewn pynciau cost uchel, mae CCAUC yn hyderus na fydd y newid hwn yn cael rhyw lawer o effeithiau negyddol ar gyfraddau recriwtio PGR mewn pynciau cost uchel. |

| **A ddylai CCAUC bennu cyllid cymorth PGR ar ffurf cyfran o gyfanswm y cyllid sydd ar gael?** |
|---|
| *Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, gan ddweud y byddai'n cynyddu tryloywder a chysondeb y cymorth. Pe bai hyn yn golygu bod y cyllid yn sefydlog, awgrymwyd y byddai'n gadarnhaol o safbwynt cynllunio, ond pe bai'r swm yn amrywio, byddai'n fuddiol pennu isafswm gwarantedig o gymorth.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Ar hyn o bryd, Cyngor CCAUC sy'n penderfynu faint o gyllid i'w neilltuo ar gyfer hyfforddiant PGR bob blwyddyn. Mae CCAUC wedi penderfynu parhau â hyn, er mwyn cynyddu ymatebolrwydd a hyblygrwydd yn y modd y bydd CCAUC yn cyllido hyfforddiant PGR yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn defnyddio ystod o ddata i bennu lefel y cyllid ar gyfer hyfforddiant PGR. Drwy'r dull hwn, |

| |
|---|
| cydnabyddir y gallai CCAUC fod eisiau ymateb i newidiadau parhaus i gymorth PGR ar raddfa'r DU. |

## 6. Sylwadau Cyffredinol

| **Defnyddiwch y blwch hwn ar gyfer unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ar gynigion CCAUC nad oeddech yn gallu eu gwneud yn unman arall.** |
|---|
| *Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:*<br>• *Byddai cymorth ychwanegol ar gyfer yr agenda Gwyddoniaeth Agored*<br>• *Dylai cyllid ar gyfer ymchwil gael ei lywio gan argymhellion Adolygiadau Diamond a Reid.*<br>• *Os bydd gweithgarwch ymchwil ac arloesi creiddiol yn cael ei dangyllido, bydd hynny'n peryglu ansawdd a chynaliadwyedd parhaus darpariaeth yng Nghymru, a'r rhan y gall y ddarpariaeth honno ei chwarae er mwyn datblygu economi a chymdeithas lewyrchus.*<br>• *O ran cyllid ymchwil yn y dyfodol, dylai CCAUC ganolbwyntio ar ymchwil 4*, gan sicrhau bod meintiau ac ansawdd yn llywio dyraniadau, ynghyd ag effaith.*<br>• *Byddai cymorth parhaus ar gyfer Astudiaethau Cymru y tu allan i'r dull cyllido ymchwil yn cael ei groesawu.*<br>• *Mae'r amseriad a ragwelir ar gyfer cyhoeddiadau cyllido yn creu risgiau sylweddol i brifysgolion.* |

## 7. Safonau'r Gymraeg 2018

| **i. Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol fydd y cynigion yn eu cael ar y canlynol:**<br>• cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg<br>• peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? | **ii. Sut y gellid newid y cynigion i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu i leihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:**<br>• cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg<br>• peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? |
|---|---|
| *Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar bwysigrwydd cynnal cefnogaeth ar gyfer allbynnau, cyhoeddiadau ac ymchwil cyfrwng Cymraeg, ac ar y risg y bydd tangyllido gweithgarwch ymchwil yn y sector yn peryglu'r holl ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth yn y Gymraeg ac yn ymwneud â'r Gymraeg, a hanes a diwylliant Cymru.* | |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Nodwn y pryderon a fynegwyd yma, a byddwn yn parhau i fonitro statws gweithgarwch ymchwil yn gysylltiedig â'r Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru, | |

| |
|---|
| gan weithio'n agos gyda phartneriaid fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gan nad yw cyllid QR CCAUC wedi'i glustnodi, gall SAUau ei ddefnyddio i gefnogi meysydd allweddol, gan gynnwys gweithgarwch ymchwil o'r math hwn. |

**8. Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

| **A ellid newid y cynigion ar gyfer y dull cyllido newydd i gynyddu effeithiau cadarnhaol nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, neu i leihau'r effeithiau andwyol ar y nodau hynny?** |
|---|
| *Roedd rhai sylwadau'n canolbwyntio ar bwysigrwydd ymchwil a sylfaen ymchwil gynaliadwy er mwyn cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r modd y gallai dyrannu cyllid yn anghywir beryglu effaith ac enw da Cymru ar y llwyfan ryngwladol.*<br><br>*Canolbwyntiai eraill ar bwysigrwydd amgylchedd dysgu sy'n rhoi sylw dwys i ymchwil er mwyn cyflawni deilliannau myfyrwyr, ac awgrymwyd y byddai model cyllido a oedd yn canolbwyntio mwy ar ddeilliannau, drwy ddefnyddio dyraniadau wedi'u seilio ar effaith, yn rhoi'r cymhelliant gorau i sefydliadau greu budd gwirioneddol i Gymru.*<br><br>*Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai'n ddymunol alinio'r fethodoleg newydd i gyllido ymchwil â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.*<br><br>*Cyfeiriwyd hefyd at effaith negyddol y trothwyon maint a chynaliadwyedd ar nifer o brosiectau ymchwil sy'n cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Rydym wedi nodi'r ymatebion amrywiol hyn, a byddwn yn eu hymgorffori i'n gwaith polisi ehangach sy'n anelu i gefnogi sylfaen ymchwil gynaliadwy a chydweithredol, a all fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg a heriau'r dyfodol, gan gynnwys Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Drwy gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy'n effeithiol, bydd ein cyllid QR yn gwneud cyfraniad allweddol at gynaliadwyedd y sylfaen ymchwil hon. |

**9. Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

| **A yw'r dull cyllido newydd a gynigiwyd yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?** |
|---|
| *Nododd yr ymatebwyr yr ymdrechion cadarnhaol a wnaed gan FfRhY 2021 i roi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon yr ymarfer. Roedd eraill* |

| |
|---|
| *yn croesawu'r newidiadau i'r ddarpariaeth PGR a ddylai gael effeithiau cadarnhaol yn nhermau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.* |
| Ymateb CCAUC:<br><br>Mae CCAUC yn nodi'r ymatebion hyn. Mae'r newidiadau a wnaed i FfRhY 2021 i ymwreiddio ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy gydol yr ymarfer, wedi bod yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau bod asesiadau ymchwil ar raddfa'r DU yn fwy cynhwysol a theg. Mae'r cyrff cyllido wedi ymrwymo i barhau i wneud gwelliannau, a byddant yn rhoi ystyriaeth ofalus i argymhellion Panel Cynghori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth FfRhY 2021 (y mae ei adroddiad ar gael yma) wrth ddylunio ymarferion asesu ymchwil yn y dyfodol. Wrth wneud newidiadau i'r meini prawf cymhwystra ar gyfer yr ymrestriadau PGR yn ein cyllid hyfforddiant PGR, rydym yn anelu i osgoi unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol ar rai sy'n dewis, neu y mae eu hamgylchiadau'n gorfodi astudiaethau ôl radd mwy hyblyg neu dymor hwy. |